

Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2020 - “Cynllun 2020”

Cefndir

1. Mae Rheoliad 8 o Reoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012¹ (“Rheoliadau 2012”) yn gwneud darpariaeth ar i Weinidogion Cymru sefydlu Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth (EBS) er mwyn galluogi i bobl a gyflogir neu a gyflogwyd mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) ddod yn athrawon cymwysedig.
2. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau i ddarparu cymorth ariannol o dan adrannau 14-17 o Ddeddf Addysg 2002 at amryw o ddibenion a amlinellir yn adran 14. Mae'r dibenion penodol hynny yn cynnwys hyrwyddo recriwtio neu gadw athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu, darparu unrhyw fath o hyfforddiant i athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu a darparu cydnabyddiaeth ariannol neu fuddion eraill i athrawon neu staff nad ydynt yn addysgu. Gwneir y grantiau a delir o dan Gynllun 2020 wrth arfer y pwerau hynny.
3. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd hefyd o dan adran 10 o Ddeddf Addysg 1996 (“Deddf 1996”) i hyrwyddo addysg pobl Cymru ac, o dan adran 11, i arfer eu pwerau mewn perthynas â chyrrff a ariennir yn gyhoeddus sy'n gyfrifol am ddarparu addysg gynradd, uwchradd a phellach i hyrwyddo addysg o'r fath. Rhaid i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau gyda'r nod o wella safonau, annog amrywiaeth a chynyddu dewis. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny, mae adran 84A o Ddeddf Addysg 2005 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud trefniadau y teimlant sy'n hwylus i sicrhau cyfleusterau i hyfforddi athrawon i weithio mewn ysgolion a gynhelir.
4. Gall Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ar wahân o dan reoliad 8(5) o Reoliadau 2012, a rhaid i'r rhai sy'n arfer unrhyw swyddogaeth o dan Gynllun 2020 roi sylw priodol i'r canllawiau hynny.

Crynodeb o'r Cynllun

5. Mae Cynllun 2020 yn amlinellu gofynion a gweithrediad y Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth (EBS) yng Nghymru. Mae'n amlinellu cwrpas yr EBS ac yn rhoi manylion y gofynion cymhwysedd ar gyfer yr unigolion hynny sydd eisiau dilyn llwybr ar sail cyflogaeth i addysgu ar ben y gofynion hynny o dan y Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru².

¹ Rheoliadau Cymwysterau Athrawon Ysgol (Cymru) 2012 (O.S. 2012/724).

² <https://llyw.cymru/rhaglenni-addysg-gychwynnol-athrawon-meini-prawf-achredu>

6. Ni fydd cyllid ar gael i'r EBS lle nad yw Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi unrhyw dargedau derbyn ar gyfer y rhaglen yn unol â darpariaethau Cynllun 2020. Efallai na fydd y Darparwr Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) ar sail cyflogaeth cymeradwy yn gweithredu'r EBS oni bai bod Gweinidogion Cymru yn dyrannu targedau derbyn iddynt yn unol â darpariaethau Cynllun 2020.
7. Bydd Cynllun 2020 yn dod i rym ar gyfer y rhaglenni EBS pan fydd y cyfnod o hyfforddiant yn cychwyn ar 1 Ebrill 2020 neu ar ôl hynny.
8. Mae Cynllun 2020 yn disodli Cynllun Hyfforddi Athrawon ar sail Cyflogaeth 2019 (2019 Rhif 03) ("Cynllun 2019"). Mae trefniadau pontio a amlinellir ym mharagraff 39 yn golygu y bydd darpariaethau Cynllun 2019 yn parhau i fod yn berthnasol yn achosion Rhaglenni Hyfforddiant i Raddedigion (GTP) a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion (ATGP) a gychwynnodd cyn 1 Ebrill 2020.

Dehongliad

9. Oni bai bod y cyd-destun yn gofyn am ddehongliad gwahanol, at ddiben y ddogfen hon:-

mae "rhaglen AGA achrededig" yn golygu rhaglen a achredir gan Fwrdd Achredu Addysg Athrawon³ Cyngor y Gweithlu Addysg a sefydlwyd yn unol â rheoliad 5 o Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017;

mae "cyflogaeth" yn golygu cyflogaeth o dan gontract cyflogaeth neu gontractio person i ddarparu gwasanaethau heb fod o dan gontract cyflogaeth, a dylai cyfeiriadau at gyflogaeth gael eu dehongli yn unol â hynny;

mae "darparwr AGA ar sail cyflogaeth" yn golygu darparwr rhaglen AGA ar sail cyflogaeth achrededig, neu bartneriaeth weinyddol o sefydliadau o'r fath, y mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu targed derbyn ar gyfer unrhyw raglen o dan Gynllun 2020 ar ei gyfer;

mae "cynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth" yn golygu'r cynllun y cyfeirir ato yn rheoliad 8 o Reoliadau 2012;

mae "ysgol" yn golygu ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol (ac eithrio uned cyfeirio disgyblion) neu ysgol arbennig nas cynhelir;

mae "safonau penodol" yn golygu'r safonau sy'n berthnasol ar adeg yr asesiad a nodir gan Weinidogion Cymru fel y safonau sy'n ofynnol i bobl sydd eisiau dod yn athrawon cymwysedig⁴;

³ Cyfeirir ato yn Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/165) fel y pwyllgor achredu hyfforddiant cychwynnol athrawon ysgol.

⁴ <https://hwb.gov.wales/datblygiad-proffesiynol/safonau-proffesiynol/>

mae "addysgu" yn golygu cyflawni'r math o waith a nodir gan Reoliadau a wnaed o dan adran 14 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014⁵, a dylai "i addysgu" gael ei ddehongli yn unol â hynny;

mae "sefydliad y Deyrnas Unedig" yn golygu sefydliad yn y Deyrnas Unedig nad yw'n gysylltiedig neu'n rhan o sefydliad y mae ei brif sefydliad y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Y Rhaglenni

10. Mae Cynllun 2020 yn ymgorffori rhaglenni AGA sy'n ceisio galluogi pobl a gyflogir mewn ysgol i ddod yn athrawon cymwysedig.
11. Mae'r EBS yn llwybr ar sail cyflogaeth i berson ddod yn athro cymwysedig o dan reoliad 5 o Reoliadau 2012 ac ennill Statws Athro Cymwysedig (SAC). O dan y rhaglen, gall graddedigion nad oes ganddynt SAC ymgymryd â chyfnod o hyfforddiant trwy'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth fel y gallant gael eu cyflogi i addysgu mewn ysgol wrth ddilyn rhaglen AGA achrededig a ddyluniwyd i'w galluogi i gyflawni'r safonau penodol.
12. Nid yw pobl sy'n derbyn hyfforddiant at ddibenion yr EBS fel rhan o gynllun hyfforddi athrawon ar sail cyflogaeth yn athrawon cymwysedig. Fodd bynnag, gallant addysgu mewn ysgol yn unol â darpariaethau paragraff 7 o Atodlen 3 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015.
13. Dim ond os bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu targedau derbyn iddynt yn unol â'r darpariaethau ym mharagraff 14 isod y gall darparwyr rhaglenni AGA achrededig yng Nghymru weithredu'r EBS.

Gweinyddu'r EBS

14. Gall Gweinidogion Cymru osod targedau derbyn ar gyfer yr EBS ar gyfer blynyddoedd academaidd penodol, a bydd y targedau hyn yn cael eu dyrannu'n uniongyrchol i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth cymeradwy yng Nghymru. Fel rhan o'r broses hysbysu hon, bydd Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad polisi a blaenoriaethau blynyddol, o dan reoliad 8(5) o Reoliadau 2012, a fydd yn amlinellu'r meysydd blaenoriaeth polisi y mae'n ofynnol i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth ganolbwyntio ei niferoedd derbyn targed a'i adnoddau ar gyfer y flwyddyn academaidd benodol arnynt.⁶

⁵ Y Rheoliadau presennol yw Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015 (O.S. 2015/140).

⁶ Mae Rheoliad 8(5) o Reoliadau 2012 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau, a rhaid i berson neu gorff roi sylw priodol i'r canllawiau hyn wrth arfer unrhyw swyddogaeth mewn perthynas â chynllun a sefydlwyd o dan reoliad 8.

15. Bydd y datganiad polisi a blaenoriaethau blynyddol yn amlinellu unrhyw gyllid grant a fydd ar gael o dan delerau paragraffau 30-35 i gefnogi'r EBS lle cyhoeddir targedau derbyn ar gyfer y rhaglenni hynny ar gyfer y blynyddoedd academaidd penodol.

Dyletswyddau darparwyr AGA ar sail cyflogaeth cymeradwy mewn perthynas â'r EBS

16. Bydd darparwyr AGA ar sail cyflogaeth cymeradwy yng Nghymru yn:-

- a. marchnata, hysbysebu a gweithredu'r EBS yn unol â datganiad polisi a blaenoriaethau blynyddol Gweinidog Cymru;
- b. ystyried ceisiadau am leoliadau o dan Gynllun 2020 yn erbyn y gofynion mynediad (Atodiad 2 o'r meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru) a phennu a yw pobl yn addas i hyfforddi fel athro trwy'r EBS;
- c. cyflwyno darpariaeth ar gyfer athrawon dan hyfforddiant yr EBS a gefnogir gan raglen AGA achrededig a chysylltu ag ysgolion sy'n cyflogi'r athrawon dan hyfforddiant ar bob agwedd ar hyfforddiant sy'n ofynnol i alluogi athrawon dan hyfforddiant i gyflawni'r safonau penodol;
- d. trefnu i athrawon dan hyfforddiant yr EBS gael eu hasesu yn erbyn SAC; a
- e. bod yn gyfrifol am bob agwedd ar weinyddu a darparu Cynllun 2020 o fewn y gofynion a amlinellir yn y datganiad polisi a blaenoriaethau blynyddol a'r Meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru, gan gynnwys trefniadau ar gyfer dewis athrawon dan hyfforddiant ar gyfer lleoliadau, rheoli'r prosesau apelio, gwneud y trefniadau angenrheidiol i wneud taliadau i ysgolion sy'n cymryd rhan a monitro cynnydd athrawon dan hyfforddiant.

17. Cyn i berson gael ei dderbyn i'r EBS, rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth sicrhau bod darpar athrawon dan hyfforddiant yn bodloni'r holl ofynion mynediad a amlinellir yn y meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru.

18. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth cymeradwy fod wedi'i achredu gan Gyngor y Gweithlu Addysg i ddarparu'r EBS yn erbyn y meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol i athrawon yng Nghymru.

19. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth cymeradwy wneud trefniadau gydag ysgol(ion) addas i gadarnhau lleoliadau athrawon dan hyfforddiant a sicrhau bod yr ysgol(ion) yn gallu, gydol y rhaglen EBS, ac unrhyw ran ohoni, darparu'r hyn sydd ei angen i alluogi athrawon dan hyfforddiant i gwblhau'r EBS a dangos eu

bod yn cyflawni'r safonau penodol.⁷ Wrth wneud hyn, rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth sicrhau nad yw nifer y lleoliadau athrawon dan hyfforddiant yr EBS mewn unrhyw ysgol benodol mewn unrhyw flwyddyn academaidd yn uwch na chapasiti'r ysgol dan sylw, gydag unrhyw benderfyniad angenrheidiol yn cael ei wneud rhwng yr ysgol a'r darparwr AGA.

Gofynion cyffredinol yr EBS

(i) darparu lleoliad

20. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth sicrhau bod athrawon dan hyfforddiant, yn ystod cyfnod lleoliad, yn derbyn hyfforddiant yn unol â'r rhaglen achrededig i gyflawni safonau penodol.

21. Rhaid i'r darparwr AGA cymeradwy sy'n darparu'r AGA ar sail cyflogaeth achrededig wneud trefniadau i athrawon dan hyfforddiant dderbyn yr hyfforddiant angenrheidiol mewn ysgol arall, os yw hyn yn angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni'r holl safonau penodol, mewn achosion:-

- a. lle nad yw hyfforddiant yn cael ei gynnal gan ysgol fel y cytunwyd (am ba bynnag reswm) a lle nad oes modd datrys y sefyllfa yn foddhaol;
- b. lle mae ysgol yn cau; neu
- c. lle mae ysgol yn newid ei chategori.

(ii) dod â lleoliad i ben cyn amser

22. Bydd lleoliad o dan yr EBS yn dod i ben cyn cwblhau asesiad yn erbyn y safonau penodol:-

- a. os bydd athro dan hyfforddiant yn tynnu'n ôl o'r EBS, boed hynny oherwydd salwch, beichiogrwydd neu reswm arall; neu
- b. os bydd athro dan hyfforddiant yn rhoi'r gorau i gael ei gyflogi gan yr ysgol neu'r awdurdod lleol a oedd yn ei gyflogi ar ddechrau'r lleoliad, ac eithrio:-
 - i. lle bo hynny'n digwydd oherwydd newid categori yr ysgol neu'r ysgolion (fel sy'n berthnasol) y mae'n gweithio ynddynt i fath arall o ysgol neu ysgolion, neu
 - ii. lle bo hynny'n digwydd oherwydd cau ysgol neu ysgolion (fel sy'n berthnasol) y mae'n gweithio ynddynt, neu
 - iii. lle roedd y cyflogwr yn awdurdod lleol yng Nghymru a lle bo'r athro dan hyfforddiant, yn syth ar ôl rhoi'r gorau i gael ei gyflogi gan yr awdurdod lleol hwnnw, yn dechrau cael ei gyflogi gan awdurdod lleol arall yng Nghymru; neu
- c. os yw'r athro dan hyfforddiant, ym marn resymol y darparwr AGA cymeradwy ar gyfer AGA ar sail cyflogaeth, wedi methu â gwneud cynnydd digonol yn ystod y lleoliad i'w alluogi i gyflawni'r safonau penodol.

⁷ Nid yw'n ofynnol i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth baru athrawon dan hyfforddiant yr EBS ag ysgol benodol, ond gallant wneud hynny. Gall darpar athrawon dan hyfforddiant yr EBS ddod o hyd i ysgol sy'n barod i'w gyflogi a'u cefnogi trwy eu hyfforddiant.

(iii) ymestyn neu adfer lleoliad

23. Gall darparwr AGA ar sail cyflogaeth ymestyn neu adfer lleoliad o dan yr EBS:-
- os nad yw'r lleoliad wedi'i gwblhau yn llawn, neu os nad yw'n debygol o gael ei gwblhau yn llawn, fel sy'n ofynnol i gyflawni'r safonau penodol am resymau salwch, beichiogrwydd neu amgylchiadau eraill y tu hwnt i reolaeth yr athro dan hyfforddiant; neu
 - os yw'r athro dan hyfforddiant dan sylw eisiau parhau â'i leoliad yn yr un ysgol neu ysgolion, ond bod y darparwr AGA ar sail cyflogaeth o'r farn nad oes digon o amser yn weddill o'r lleoliad i'w alluogi i gyflawni'r safonau penodol.
24. Yn achos lleoliad sy'n cael ei ymestyn neu ei adfer, rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth sicrhau y byddai'r lleoliad yn ddigon hir i alluogi'r athro dan hyfforddiant i gwblhau ei leoliad er mwyn cyflawni'r safonau penodol.
25. Ni fydd Gweinidogion Cymru o dan unrhyw rwymedigaeth i ddarparu unrhyw gyllid pellach y tu hwnt i'r cyllid hwnnw a amlinellir yn y datganiad polisi a blaenoriaethau blynyddol mewn achosion lle mae rhaglen hyfforddi yn cael ei hymestyn neu ei hadfer.

(iv) asesu athrawon dan hyfforddiant

26. Ar ddiwedd y cyfnod hyfforddiant, rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth sy'n darparu rhaglenni AGA ar sail cyflogaeth achrededig drefnu i athrawon dan hyfforddiant gael eu hasesu yn erbyn y safonau penodol. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth cymeradwy ddefnyddio'r un trefniadau asesu ag a ddefnyddir ar gyfer pobl sy'n dilyn cyrsiau AGA llawn amser neu ran-amser.
27. Yn dilyn asesiad, rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth gadarnhau i'r corff priodol⁸ y gellir rhoi gwybod i athro dan hyfforddiant yr EBS ei fod yn athro cymwysedig:-
- cyn belled â bod y person wedi cwblhau rhaglen AGA achrededig yn llwyddiannus.
 - cyn belled â'i fod wedi'i asesu fel ei fod yn cyflawni'r safonau penodol; a
 - chyn belled â bod ganddo radd gyntaf neu gymhwyster cyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig, neu gymhwyster y mae Gweinidogion Cymru o'r farn ei fod o safon gyfwerth a ddyfarnwyd gan sefydliad addysgol yn rhywle arall.

(v) y broses apelio

⁸ Adeg cyhoeddi hwn, y corff priodol o dan Reoliadau 2012 yw Cyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor"). Gall Gweinidogion Cymru roi gwybod i bobl eu bod yn athrawon cymwysedig ond eu bod wedi cytuno ar drefniadau gyda'r Cyngor iddo drafod pob achos ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

28. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth wneud darpariaeth ar gyfer proses apelio ar gyfer pobl sy'n ymgymryd â'r EBS sy'n gyson â'r arfer a/neu'r prosesau sydd ar waith ar hyn o bryd i ystyried apelau gan athrawon dan hyfforddiant ar unrhyw gwrs neu raglen AGA y mae'n eu darparu.

Grantiau'r EBS

29. Gall Gweinidogion Cymru sicrhau bod grantiau ar gael ar gyfer y darparwr AGA ar sail cyflogaeth i'w darparu i ysgolion a gynhelir neu ysgolion arbennig nas cynhelir sy'n cyflogi pobl sydd ag awdurdod i ddarparu hyfforddiant at ddibenion yr EBS i dalu costau llawn cyflogau'r bobl hynny ("grantiau cyflog"), neu ran o'r costau hynny.

30. Gall Gweinidogion Cymru sicrhau bod grantiau ar gael ar gyfer y darparwr AGA ar sail cyflogaeth sy'n darparu hyfforddiant at ddibenion yr EBS i dalu costau llawn yr hyfforddiant hwnnw ("grantiau hyfforddiant"), neu ran o'r costau hynny. Lle mae grant hyfforddiant ar gael i ddarparwr AGA ar sail cyflogaeth, bydd yn amodol ar y darparwr AGA ar sail cyflogaeth yn peidio â cheisio unrhyw gyllid ychwanegol mewn cysylltiad â hyfforddiant at ddibenion yr EBS gan unrhyw ysgol sy'n cymryd rhan.

31. Gall Gweinidogion Cymru:-

- a. osod swm unrhyw grantiau cyflog neu grantiau hyfforddiant y byddant yn eu cyflwyno ar lefel a ystyrir yn briodol;
- b. cyfyngu ar nifer y grantiau cyflog neu grantiau hyfforddiant a gynigir mewn unrhyw flwyddyn academiaidd benodol; a
- c. sicrhau bod grantiau cyflog neu grantiau hyfforddiant ond ar gael mewn perthynas ag achosion lle darperir hyfforddiant at ddibenion yr EBS mewn perthynas â chyfnodau addysgu penodol neu bynciau penodol, neu mewn perthynas â mathau penodol o geisiadau.

32. Gall Gweinidogion Cymru ei gwneud hi'n ofynnol bod unrhyw grant sydd ar gael o dan y darpariaethau ym mharagraffau 30 a/neu 31 yn cael ei ad-dalu yn llawn neu'n rhannol os bydd y lleoliad, am unrhyw reswm, yn para llai na'r cyfnod a nodwyd ar gyfer y rhaglen achrededig.

33. Bydd y swm y bydd hi'n ofynnol ei ad-dalu ar gyfer unrhyw grant sydd ar gael o dan y darpariaethau ym mharagraffau 30 a/neu 31 yn cyfateb i unrhyw gyllid grant nad oedd wedi'i ddefnyddio pan ddaw'r lleoliad i ben.

34. Gall Gweinidogion Cymru dalu am unrhyw gostau a ystyrir yn briodol sy'n gysylltiedig â chais person am hyfforddiant o dan yr EBS ac asesiad dilynol yn erbyn y safonau penodol.

35. Cyn cyflwyno unrhyw grantiau neu ddarparu costau eraill mewn unrhyw flwyddyn ariannol, rhaid i Weinidogion Cymru yn gyntaf nodi'r grantiau a'r costau a'u hargaeledd yn y datganiad polisi a blaenoriaethau blynyddol y maent yn ei

gyflwyno i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth o dan y darpariaethau ym mharagraff 14.

Monitro a gwerthuso'r EBS

36. Rhaid i'r darparwr AGA ar sail cyflogaeth sy'n darparu hyfforddiant athrawon ar sail cyflogaeth o dan yr EBS ddarparu i Weinidogion Cymru wybodaeth (ar y ffurf a nodir gan Lywodraeth Cymru o bryd i'w gilydd) sy'n amlinellu statws a nifer yr athrawon dan hyfforddiant ar yr EBS; y costau cysylltiedig; canlyniadau'r rhaglenni hyfforddiant; ac unrhyw ddata gofynnol arall.


Amseru a threfniadau pontio

37. Mae Cynllun 2020 yn berthnasol i'r EBS lle mae cyfnod yr hyfforddiant yn cychwyn ar 1 Ebrill 2020 neu ar ôl hynny.

38. Ac eithrio'r hyn a nodir ym mharagraff 39, bydd Cynllun 2019 yn dod i ben ar 1 Ebrill 2020.

39. Bydd darpariaethau Cynllun 2019 yn dal i fod yn berthnasol yn achos rhaglenni RhAG a'r Rhaglen Hyfforddiant Ychwanegol i Raddedigion lle cychwynnodd y cyfnod o hyfforddiant rhwng 1 Medi 2015 ac 1 Ebrill 2020.

Llofnod:



Kirsty Williams AC, Y Gweinidog Addysg

Un o Weinidogion Cymru

Dyddiad: 18ed Rhagfyr 2019